**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Mark Drakeford AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

21 Mehefin 2018

Annwyl Mark

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Mehefin a'ch ymateb cyflym i ymholiadau'r Pwyllgor ynghylch y gwelliant diweddar i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) (a gynigwyd yn wreiddiol gan Syr Oliver Letwin AS) a'r goblygiadau posibl i'r **Cytundeb Rhynglywodraethol.**

Yn eich llythyr, dywedasoch:

> "The UK Government is very clear that the draft Bill which the Secretary of State will be required to produce will apply only in England, or to reserved matters. In addition, the amendment requires the Bill to set out a series of cross-cutting environmental principles; it does not oblige the UK Government to produce a Bill which sets out a legislative framework in relation to one of the specific policy areas set out in the Annex to the Intergovernmental Agreement. (…) As such, on this basis I do not believe that the amendment has the potential to breach the Intergovernmental Agreement…"

Er mwyn deall yn iawn sut mae'r Cytundeb Rhynglywodraethol yn gweithredu, ac o gofio ei arwyddocâd cyfansoddiadol, byddwn yn ddiolchgar o gael eglurhad pellach.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro pam fod yr un ffaith mai yn Lloegr yn unig y bydd y Bil drafft yn gymwys yn rheswm pam na fyddai dim torri posibl ar y Cytundeb Rhynglywodraethol, o gofio bod y Cytundeb Rhynglywodraethol yn nodi y bydd y cadw dros dro yn gymwys yn Lloegr?

Mae'r Cytundeb Rhynglywodraethol yn darparu y bydd y 24 a rhagor o feysydd polisi yn cael eu cadw dros dro yn Lloegr yn ogystal â gweddill y DU ac yn nodi y caiff y "gadwraeth dros dro" ei gweithredu drwy i Lywodraeth y DU ymrwymo i beidio â chyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n newid meysydd polisi. Gallai gosod

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

egwyddorion amgylcheddol mewn Bil yr Amgylchedd yn Lloegr yn unig newid cyfraith amgylcheddol neu, o leiaf, ddylanwadu ar gyfeiriad polisi yn y dyfodol.

Byddai hefyd o gymorth pe gallech nodi a yw eich dealltwriaeth chi o'r sefyllfa yn gydnaws â dealltwriaeth Llywodraeth y DU ohoni.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Yn gywir,

**Mick Antoniw**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.